Trefn at Wasanaeth

o Addoliad Eciwmenaidd

Y Litwrgi Rhyngwladol

iStockphoto.com/Frans Rombout

"Yr ydym i gyd i gael ein newid trwy fuddugoliaeth ein Harglwydd Iesu Grist."

(1 Corinthiaid 15.51-58)

CYFLWYNIAD

Daw Gwasanaeth Eciwmenaidd yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol 2012 o Wlad Pwyl lle'r ysgrifennodd grŵp eciwmenaidd litwrgi yn seiliedig ar brofiadau Cristnogion o Bwyliaid a fu byw trwy amseroedd o lawenydd ac o adfyd.

Y mae yn hanes Gwlad Pwyl sawl concwest a buddugoliaeth, a goresgynnwyd y wlad a'i rhannu droeon gan luoedd tramor a chyfundrefnau gelyniaethus. Nodwedd ar hanes Gwlad Pwyl yw ei hymdrech barhaus i oresgyn caethwasiaeth a'i dyhead am heddwch.

Daw thema'r gwasanaeth o 1 Corinthiaid 15:51-58 sy'n sôn am rym trawsffurfiol ffydd yng Nghrist, yn enwedig mewn perthynas â'n gweddïo am undod gweladwy'r Eglwys, Corff Crist. Wrth inni weddïo am undod gweladwy a chyflawn yr Eglwys, a gweithio drosto, fe'n newidir ni – a'r traddodiadau yr ydym yn perthyn iddynt – a'n trawsffurfio a'n llunio ar ddelw Crist.

Bydd yr Eglwys sydd yn wir yn Un yn wahanol iawn i'r traddodiadau yr ydym mor gyfarwydd â hwy. Y mae hon yn weledigaeth gyffrous, ond fe all ein llenwi ag ofn! Nid rhyw syniad 'cyffyrddus' o gyfeillgarwch a chydweithredu yw'r undod yr ydym yn gweddïo amdano. Y mae'n gofyn ein bod yn barod i ddileu pob cystadleuaeth rhyngom. Rhaid inni fod yn agored i'n gilydd, cynnig doniau i'n gilydd a derbyn doniau oddi wrth ein gilydd, fel y gallwn yn wir fynd i mewn i'r bywyd newydd yng Nghrist, yr unig wir fuddugoliaeth.

shutterstock.com/ Jeff Banke

PARATOI

- Bydd angen: arweinydd i'r gwasanaeth (A: yn y testun)
- Rhywun i arwain yr Ymbiliad (Y: yn y testun)
- Tri darllenydd (D1, D2 a D3) i ddarllen o'r Beibl
- Pobl ifainc i gario'r basgedi bwyd
- Dynoda C: ymateb y gynulleidfa
- Os rhoddir sgwrs neu ddrama yn lle'r homili, paratowch hynny ymlaen llaw.
- Bydd angen: bwrdd digon mawr i ddal y basgedi bwyd, ond heb edrych fel Bwrdd Cymun
- Basgedi i ddal yr 'eitemau bwyd'.

Gall yr 'eitemau bwyd' fod yn opłatki (gweler yr esboniad yn adran Arwydd Tangnefedd a Rhannu Bwyd y litwrgi) neu, os nad yw'r rheini ar gael neu eu bod yn rhy ddrud, ddarnau bach o fara neu fynsen, e.e. Teisennau'r Groglith – un i bob un yn y gynulleidfa.

AGORIAD

Emyn neu breliwd wrth ddod i mewn

Gall y sawl sy'n cymryd y prif rannau yn y gwasanaeth orymdeithio i mewn Gall y bobl ifainc gludo'r basgedi bwyd ac un o'r darllenwyr gludo'r Beibl. Gosodir y basgedi ar y bwrdd a'r Beibl ar y ddarllenfa.

Cyfarchiad

A: Gras ein Harglwydd Iesu Grist, a chariad Duw, a chymdeithas yr Ysbryd Glân a fyddo gyda chwi oll.

C: **A hefyd gyda thi.** Neu: **A chyda'th ysbryd dithau.**

shutterstock.com/CLChang

Rhagarweiniad

Yn dilyn y cyfarchiad neu gyflwyno'r rhai sy'n bresennol, gellir rhoi rhagarweiniad byr yn arwain i'r thema.

A: Clywch! Yr wyf yn mynegi dirgelwch ichwi: nid ydym i gyd i huno, ond yr ydym i gyd i gael ein newid.

C: **I Dduw y bo'r diolch, yr hwn sy'n rhoi'r fuddugoliaeth i ni trwy ein Harglwydd Iesu Grist.**

A: Duw yng Nghrist yw'r fuddugoliaeth.
I ni, y mae buddugoliaeth yn gofyn ymdrech a dycnwch. Cofiwn mai rhodd Duw yw'r fuddugoliaeth hon. Wrth inni weddïo am undod gweladwy a chyflawn yr Eglwys, a gweithio drosto, fe'n newidir ni – a'r traddodiadau yr ydym yn perthyn iddynt – a'n trawsffurfio a'n llunio ar ddelw Crist. Y mae Cristnogion am dderbyn y rhodd hon gyda'i gilydd, yn wylaidd a heb ymorchestu, gan wasanaethu Duw a chy mydog yn ôl esiampl Iesu Grist.
Wrth geisio undod, dyma'r agwedd meddwl y dymunwn ofyn i Dduw amdani.

Gweddi agoriadol

A: Hollalluog Dduw,
Trwy Iesu yr wyt yn dweud wrthym
fod yn rhaid i bwy bynnag sydd am fod yn gyntaf fod yn olaf ac yn was i bawb.
Deuwn i'th ŵydd
gan wybod mai trwy ddiymadferthedd y groes yr enillir dy fuddugoliaeth di.
Deuwn i weddïo am i'th Eglwys fod yn un.
Dysg inni dderbyn yn wylaidd mai dy rodd di yw'r undod hwn.
Trwy'r rhodd hon, newidia ni a thrawsffurfia ni
a thrwy nerth yr Ysbryd Glân gwna ni'n debycach i'th Fab Iesu Grist.

C: **Amen.**

Gweddi o edifeirwch

A: Hollalluog Dduw, er gwaetha'r Undod a roddodd Crist inni, yr ydym yn parhau i fod ar wahân. Trugarha wrthym!

C: **Trugarha wrthym!** Neu canu **"Kyrie Eleison"**

A: Yr ydym yn caledu ein calonnau wrth wrando ar yr Efengyl.
Trugarha wrthym!

C: **Trugarha wrthym!**

A: Nid ydym yn dy wasanaethu di yn ein brodyr a'n chwiorydd.
Trugarha wrthym!

C: **Trugarha wrthym!**

A: Daeth anufudd-dod Adda ac Efa â dioddefaint a marwolaeth i ni; clwyfwyd a rhwygwyd y greadigaeth.
Trugarha wrthym!

C: **Trugarha wrthym!**

CEDWIR YSBAID O DDISTAWRWYDD

PAWB: **Trugarhaed ur hollalluog Dduw wrthym, maddau inni ein pechodau a'n dwyn i fywyd tragwyddol.
Amen**

GAIR DUW

D1: Habacuc 3.17-19;
D2: 1 Corinthiaid 15.51-58;
D3: Ioan 12.23-26

Emyn / Cân

Sgwrs / Cyflwyniad / Homili / Drama

Bydd cyfnod byr o ddistawrwydd yn dilyn y Sgwrs.

Cyffesu'r Ffydd

Adroddir Credo'r Apostolion neu Gredo Nicea. Neu:

A: Galwn ar Dduw. Ef yn unig sy'n deilwng o ffydd: Amen – Yr ydym yn credu!

C: **Amen – Yr ydym yn credu!**

A: Yn yr un Duw: Tad, Mab ac Ysbryd Glân.

C: **Amen – Yr ydym yn credu!**

A: Yn Nuw Dad Hollalluog, Creawdwr pob peth.

C: **Amen – Yr ydym yn credu!**

A: Ym Mab Duw, a ddaeth yn ddyn.

C: **Amen – Yr ydym yn credu!**

A: Yn ei ddysgeidiaeth, ei farwolaeth, ei atgyfodiad a'i esgyniad.

C: **Amen – Yr ydym yn credu!**

A: Yn rhodd yr Ysbryd Glân.

C: **Amen – Yr ydym yn credu!**

A: Yn ail-ddyfodiad Crist mewn gogoniant.

C: **Amen – Yr ydym yn credu!**

A: Bod ei ras yn drech na phechod.

C: **Amen – Yr ydym yn credu!**

A: Bod bywyd yn fwy grymus na chasineb a marwolaeth.

C: **Amen – Yr ydym yn credu!**

A: Yn atgyfodiad y corff ac y cawn fyw yn y deyrnas am byth.

C: **Amen – Yr ydym yn credu!**

A: O Dduw sy'n Dri yn Un, edrych ar ffydd dy Eglwys ar ei phererindod trwy'r byd, ac arwain dy blant i weld disgleirdeb dy fawrhydi wyneb yn wyneb, yr Un Duw sy'n byw ac yn teyrnasu yn oes oesoedd.

C: **Amen.**

Emyn / Cân

GWEDDÏAU AM GAEL EIN HUNO A'N TRAWSFFURFIO

Y: A ninnau'n un yng Nghrist sy'n rhoi inni'r fuddugoliaeth, gweddïwn:
Dros yr Eglwys, Corff Crist; ar inni wir fyw yr undod a dderbyniwn trwy'r Ysbryd Glân. Dduw ein nerth:

C: **Newidia ni trwy dy ras.**

Y: Dros arweinwyr ein heglwysi, yn enwedig (enwch arweinwyr cynulleidfaoedd eich Cytûn lleol); ar iddynt fod yn ffyddlon i'r undod y gelwir pob Cristion iddo. Dduw ein nerth:

C: **Newidia ni trwy dy ras.**

Y: Dros holl genhedloedd y byd; ar iddynt fyw mewn heddwch â'i gilydd a hyrwyddo cyfiawnder i bawb. Dduw ein nerth:

C: **Newidia ni trwy dy ras.**

Y: Dros yr holl bobl; ar inni fod yn oruchwylwyr da ar y ddaear.
Dduw ein nerth:

C: **Newidia ni trwy dy ras.**

Y: Dros bawb yn ein cymdeithas; ar inni gael ein trawsffurfio i fyw fel cymdogion yn gofalu am ein gilydd. Dduw ein nerth:

C: **Newidia ni trwy dy ras.**

Y: Dros y claf a'r dioddefus; ar iddynt gael eu trawsffurfio gan dy bresenoldeb iachaol. Dduw ein nerth:

C: **Newidia ni trwy dy ras.**

Y: Dros bob teulu a phob cartref; ar i'w hymdrechion a'u llawenydd gael eu cyflawni yn dy gariad. Dduw ein nerth:

C: **Newidia ni trwy dy ras.**

Y: Dros bawb sy'n marw; ar iddynt gael eu diddanu gan dy bresenoldeb.
Dduw ein nerth:

C: **Newidia ni trwy dy ras.**

Y: Arglwydd, saf yn ein plith a dyro inni undod a thangnefedd.

C: **Amen.**

Gweddi'r Arglwydd

Y: Pan ofynnodd y disgyblion i Iesu eu dysgu i weddïo, fe atebodd Iesu: "Gweddïwch chwi fel hyn ..."

C: **Ein Tad …**

Arwydd o dangnefedd a rhannu'r bwyd

A: Y mae gan bobl Gwlad Pwyl arfer neilltuol o rannu math arbennig o afrlladen fawr, yr "opłatek", yn eu cartrefi ac mewn eglwysi adeg y Nadolig. Rhoddir un i bawb. Bydd pobl wedyn yn torri tameidiau ac yn eu rhannu â'i gilydd a'u bwyta. Wrth wneud hynny, byddant yn mynegi eu dymuniadau gorau i'w gilydd. Mae'r rhannu hwn yn fynegiant o undod, cariad a maddeuant. Fe'ch gwahoddwn chwi i wneud yr un peth, yn arwydd o dangnefedd ac undod, trwy rannu'r bwyd a ddaeth y bobl ifainc i chwi.

A: Tangnefedd yr Arglwydd a fo gyda chwi bob amser.

C: **A hefyd gyda thi.** Neu: **A chyda'th ysbryd dithau.**

A: Gadewch inni roi i'n gilydd arwydd o dangnefedd.

Emyn

Tra cenir yr Emyn, â'r bobl ifainc â'r bwyd i bawb sy'n bresennol ac yna ei rannu â'i gilydd.

DIWEDDGLO

Gweddi o ymrwymiad

A: Cofiwn eiriau'r Apostol Paul yn ei Lythyr Cyntaf at y Corinthiaid (1 Cor.15: 57-58):
I Dduw y bo'r diolch, yr hwn sy'n rhoi'r fuddugoliaeth i ni trwy ein Harglwydd Iesu Grist. Felly, fy nghyfeillion annwyl, byddwch yn gadarn a diysgog, yn helaeth bob amser yng ngwaith yr Arglwydd, gan eich bod yn gwybod nad yw eich llafur yn yr Arglwydd yn ofer. Moliant i'r Arglwydd, sy'n ein harwain i undod! O Dad, cysegrwn yr wythnos hon i weddïo am ddyfnhau ein hundod yng Nghrist. Y mae ef wedi gorchfygu angau, ac y mae'n ein galw i fywyd newydd yn yr Ysbryd. Felly, gweddiwn:

A: Wedi ein newid gan Grist trwy wasanaethu –

C: **Anfon ni allan ynghyd!**

A: Wedi ein newid trwy hirymaros –

C: **Anfon ni allan ynghyd!**

A: Wedi ein newid trwy ddioddef –

C: **Anfon ni allan ynghyd!**

A: Wedi ein newid trwy ymdrechu –

C: **Anfon ni allan ynghyd!**

A: Wedi ein newid trwy wneud heddwch –

C: **Anfon ni allan ynghyd!**

A: Wedi ein newid trwy gariad Duw –

C: **Anfon ni allan ynghyd!**

A: Wedi ein newid trwy ymborthi ar Dduw –

C: **Anfon ni allan ynghyd!**

A: Yn un â'n gilydd dan deyrnasiad Crist –

C: **Anfon ni allan ynghyd!**

Y fendith a'r anfon allan

Gall nifer o glerigion draddodi'r fendith gyda'i gilydd yn y ffurf isod, neu mewn ffurf arall.

A: Yr Arglwydd a fo gyda chwi.

C: **A hefyd gyda thi.** Neu: **A chyda'th ysbryd dithau.**

A: Bydded i'r Arglwydd eich bendithio a'ch cadw.
Bydded i'r Arglwydd lewyrchu ei wyneb arnoch a bod yn drugarog wrthych.
Bydded i'r Arglwydd edrych arnoch yn gariadus a rhoi i chwi dangnefedd.

A: **Amen.**

Neu

L: Bydded bendith Duw hollalluog, y Tad, y Mab a'r Ysbryd Glân arnoch.

C: **Amen.**

L: Ewch ymaith yn nhangnefedd Crist!

C: **I Dduw y bo'r diolch!**

Emyn i gloi neu bostliwd

Wrth ymadael, gellir gwneud casgliad at y sawl sydd mewn angen yn y gymuned ehangach.